# DRAFFT / DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhy Brynmenyn, Penybont ar 13 Mawrth 2009 / *Minutes of meeting held at Brynmenyn House, Bridgend on 13 March 2009***

**Yn Bresennol / *Present***

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Eurfryn Davies<br>Bethan James<br>Rheinallt Thomas<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Gill Vaisey<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Megan Inglesant<br>Allan Jones<br>Carys Thomas<br>Richard Landy<br>Edward Evans<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Michael Gray<br>Christine Thompson<br>David Brooks<br>Vicky Thomas<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Caroline Neudegg<br>Martin Rawle<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Helen Gibbon<br>Mary Parry<br><br>**Ceredigion**<br>Mary Parry<br>Vaughan Salisbury<br><br>**Conwy**<br>Eirian Pierce | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Mairwenna B Lloyd<br>Brian Huw Jones<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Nigel Steele-Mortimer<br><br>**Gwynedd**<br>Bethan James<br>Aeron M Jones<br>W M Meredith<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Carys Thomas<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey<br>Sue Cave<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br>Jen Malcolm<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Vicky Thomas<br>Sally Northcott<br>David Hando<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire*** | **Powys**<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Carys Thomas<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Vicky Thomas<br><br>**Torfaen**<br>Vicky Thomas<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Gill Vaisey<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Vicky Barlow<br>Tania ap Siôn<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Leslie J Francis (St Mary's Centre)<br>Peter Privett (Godly Play)<br>Ceri Weatherall (Estyn)<br>Lynda Maddock (Trinity College / WNCRE)<br>Tudor Thomas (WJEC)<br>Mike Strange (Christianity Unpacked) |

| Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Brynmenyn, Pen-y-bont ar Ogwr, ar 13 Mawrth 2009) | Minutes of the meeting held at Brynmenyn House, Bridgend, 13 March 2009 (Welsh version to follow) |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad a chroeso**<br>Agorwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Michael Gray, oherwydd bod y Cadeirydd yn cyrraedd yn hwyr. Estynnodd Maer Pen-y-bont ar Ogwr groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod. Gwnaeth y sylw fod hwn yn gyfnod pwysig ar gyfer addysg grefyddol yng Nghymru, oherwydd cyhoeddi Meysydd Llafur Cytûn newydd, ac yr oedd hi'n ddiolchgar am y canllawiau ategol a oedd yn cael eu cynhyrchu. Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Maer am ei chroeso, a chynigiodd ddymuniadau gorau iddi am ei chyfnod yn y swydd. | **1. Introduction and welcome**<br>Vice Chair, Michael Gray opened the meeting due to the Chair's delayed arrival. The Mayor of Bridgend warmly welcomed members to the meeting. She observed that this was an important time for religious education in Wales with the appearance of new Agreed Syllabi and was grateful for the supporting guidance being produced. The Vice Chair thanked the Mayor for her welcome and offered best wishes for her term of office. |
| **2. Adfyfyrio tawel**<br>Cynigiodd y Cadeirydd Ddiwrnod y Trwynau Cochion fel y pwnc ar gyfer adfyfyrio tawel. Eleni, yr oedd y themâu a amlygwyd yn cynnwys: malaria; addysg; iechyd mamol; ac iechyd meddwl. Gwahoddwyd yr aelodau i wneud cyfraniadau tuag at Ddiwrnod y Trwynau Cochion dros y cinio canol dydd. Codwyd cyfanswm o £103, a byddai'r Cadeirydd yn ei roi'n uniongyrchol i apêl Diwrnod y Trwynau Cochion drwy fanc. | **2. Quiet reflection**<br>The Chair offered Red Nose Day as the subject for quiet reflection. This year the themes highlighted included: malaria; education; maternal health; and mental health. Members were invited to make contributions to Red Nose Day over lunch. A total of £103 was raised which the Chair would donate directly to the Red Nose Day appeal through a bank. |
| Cynigiodd y Cadeirydd ail adfyfyrdod ynglŷn â'r newyddion trist am farwolaeth yr Archddiacon John Lewis, a thalodd deyrnged i'w gyfraniad gwerthfawr i addysg grefyddol ac i'r Eglwys. Cafodd teyrnged ysgrifenedig i Ddafydd Traherne, cyn Ymgynghorydd AG De Morgannwg, ei chylchredeg i'r aelodau. | The Chair offered a second reflection about the sad news of the death of Archdeacon John Lewis, and paid tribute to his valuable contribution to religious education and to the Church. A written tribute by Dafydd Treharne, former RE Adviser for South Glamorgan, was circulated to members. |
| **3. Ymddiheuriadau**<br>Christine Abbas, Paul Brown, Gavin Craigen, Marilyn Frazer, Fred Gilmore, Joyce Howells, Morfudd Jones, Meinir Loader, Lyndon Lloyd, Margaret Pead, Eldon Phillips, B Price, Julie Pugh, Nicholas Richter, Sali Roberts, Tegid Roberts, John Rogers, Richard Thomas, Jane Ward. | **3. Apologies**<br>Christine Abbas, Paul Brown, Gavin Craigen, Marilyn Frazer, Fred Gilmore, Joyce Howells, Morfudd Jones, Meinir Loader, Lyndon Lloyd, Margaret Pead, Eldon Phillips, B Price, Julie Pugh, Nicholas Richter, Sali Roberts, Tegid Roberts, John Rogers, Richard Thomas, Jane Ward. |
| **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghwmbrân ar 7 Tachwedd 2008**<br>Cynigiodd y Cadeirydd ychydig fanylion i'w | **4. Minutes of the meeting held at Cwmbran on 7 November 2008**<br>The Chair offered a few details to be included in the |

| | |
|---|---|
| cynnwys yn y cofnodion. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.<br><br>**5. Materion yn codi**<br>(a)Tudalen 3 — Cyfarfod fforwm Estyn . Yr oedd Rheinallt Thomas wedi mynd i'r cyfarfod, a dosbarthodd gopïau o adroddiad llawn arno i'r aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i Rheinallt Thomas am fynd i'r cyfarfod ac am ysgrifennu'r adroddiad manwl.<br><br>(b) Tudalen 3 — Yr oedd yr anghydfod gyda chylchgrawn *Yr Athro* ynglŷn ag addoli ar y cyd wedi ei ddatrys. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod y Golygydd newydd wedi cytuno i gymryd camau priodol i gywiro'r wybodaeth anghywir a oedd wedi ei chyflwyno gan yr erthygl dan sylw.<br><br>(c) Tudalen 3 — Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y byddai Sali Roberts yn ymgymryd â rôl y golygydd ar gyfer rhifyn y gwanwyn o *Newyddion AG*. Byddai Geraint Davies, golygydd rhifyn cyntaf *Newyddion AG*, a gyhoeddwyd drwy gydweithrediad rhwng Prifysgol Bangor a'r TUC, yn absennol o'i waith tan yr haf oherwydd salwch. Cynigiodd y Cadeirydd gopïau sbâr o *Newyddion AG* i'r aelodau. Y gobaith oedd y byddai rhifyn y gwanwyn o'r cylchgrawn ar gael ym mis Ebrill.<br><br>(d) Tudalen 11 — Mynegwyd peth pryder p'un ai'r oedd yr adnoddau Ôl-16 ar gyfer addysg grefyddol, a oedd wedi eu cynhyrchu ar gyfer y gynhadledd Ôl-16 ar 4 Hydref 2008, wedi eu postio i ysgolion yn Ne Cymru ai peidio. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Enid Griffiths o APADGOS yn ymwybodol o'r broblem a'i bod yn gweithio i'w datrys.<br><br>(e) Tudalen 11 — Cyngor AG Cymru a Lloegr. Yr oedd Tania ap Siôn yn fodlon cynrychioli CCYSAGauC ar y Cyngor AG. Yr oedd y Cadeirydd wedi gofyn hefyd i Gill Vaisey ystyried a allai weithredu fel ail gynrychiolydd CCYSAGauC ar y Cyngor.<br><br>**6. Gohebiaeth**<br>Neges e-bost gan Brian Gates ynglŷn â'r sefyllfa yn Lloegr ac arweiniad ynglŷn â'r Cylchlythyr.<br>Ymddiriedolaeth Jerwsalem: gwahoddiad i ysgolion | minutes. The minutes were accepted as an accurate record of the meeting.<br><br>**5. Matters arising**<br>(a) Page 3 – Estyn forum meeting. Rheinallt Thomas attended the meeting and distributed copies of a full report to members. The Chair thanked Rheinallt Thomas for attending the meeting and for writing the detailed report.<br><br>(b) Page 3 – The collective worship issue with regard to *Yr Athro* had been resolved. The Chair informed members that the new Editor had agreed to take appropriate steps to correct the misinformation provided by the article in question.<br><br>(c) Page 3 – The Chair informed members that Sali Roberts would take on the role of editor for the spring edition of *RE News*. Geraint Davies, editor of the first edition of *RE News* published by the Bangor University and TUC collaboration, would be absent from work until the summer due to illness. The Chair offered spare copies of *RE News* to members. It was hoped that the spring edition of the magazine would be available in April.<br><br>(d) Page 11 – There was some concern about whether the Post-16 resources for religious education produced for the Post-16 conference on 4 October 2008 had been posted out to schools in south Wales. Members were informed that Enid Griffiths, DCELLS, was aware of the problem and was working to resolve it.<br><br>(e) Page 11 - RE Council for England and Wales. Tania ap Siôn was willing to represent WASACRE on the RE Council. The Chair also asked Gill Vaisey to consider whether she would be able to be the second WASACRE representative on the Council.<br><br>**6. Correspondence**<br>E-mail from Brian Gates with regard to situation in England and guidance on the Circular.<br>Jerusalem Trust: invitation to schools to apply for |

| | |
|---|---|
| wneud cais am grantiau ar gyfer prynu adnoddau ynglŷn â Christnogaeth. | grants to purchase resources on Christianity. |
| **7. Trefniadau ac ethol swyddogion newydd**<br>Eglurodd y Cadeirydd y byddai'n ymddiswyddo fel Cadeirydd CCYSAGauC oherwydd y newidiadau a oedd ar droed yng Ngholeg y Drindod ac yn y sector HAGA yng Nghymru. Yr oedd yn ddiolchgar i'r Is-Gadeirydd, Michael Gray, am ei barodrwydd i ymgymryd â rôl y Cadeirydd yn yr haf. Felly, yn ystod cyfarfod tymor yr haf CCYSAGauC, byddai etholiadau'n cael eu cynnal er mwyn penodi Is-Gadeirydd newydd yn ogystal â dau aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC. | **7. Arrangements and election of new officers**<br>The Chair explained that due to the changes taking place at Trinity and within the ITET sector in Wales, he would be stepping down as Chair of WASACRE. He was grateful to the Vice Chair, Michael Gray for his willingness to take on the role of Chair in the summer. Therefore, in the summer term meeting of WASACRE, elections would take place to appoint a new Vice Chair as well as two members of the WASACRE Executive Committee. |
| **8. Cyflwyniad gan Tudor Thomas: Manylebau'r TGAU newydd mewn Astudiaethau Crefyddol**<br>Cyflwynodd Tudor Thomas, Swyddog AC/Prif Reolwr CBAC, ddwy fanyleb CBAC newydd ar gyfer TGAU i'r aelodau: Manyleb A a Manyleb B, dewisiadau A a B. Byddai addysgu yn ôl y manylebau hyn yn cychwyn ym mis Medi 2009, a'r asesu cyntaf yn cael ei gynnal yn ystod haf 2010. Eglurodd fod y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno er mwyn ymateb i: ofynion APADGOS/QCA; y fframweithiau anstatudol ar gyfer Cymru a Lloegr; y canolbwyntio ar gydlyniad cymunedol yn Lloegr; diwedd gwaith cwrs; ac adborth athrawon. Cafodd cynnwys y manylebau a'r cyfuniadau a ganiateid eu hamlinellu, a disgrifiwyd ffurf y papurau arholiad. Yr oedd y cymorth a fyddai ar gael gan GBAC ynglŷn â'r manylebau newydd yn cynnwys ymgynghorwyr cymorth rhanbarthol, gwefan CBAC, hyfforddiant, a chynlluniau gwaith. Yr oedd ffigyrau'n dangos bod Astudiaethau Crefyddol yn un o'r pynciau a oedd yn tyfu gyflymaf yn CA4 ac ar y Safon Uwch, o ran nifer y disgyblion a oedd yn ymgymryd â'r cyrsiau. | **8. Presentation by Tudor Thomas: New GCSE Religious Studies Specifications**<br>Tudor, Thomas, RS Officer/Principal Manager for WJEC, presented the two new WJEC specifications for GCSE to members: Specification A and Specification B options A and B. Teaching for these specifications would begin in September 2009, with the first assessment in the summer of 2010. He explained that these changes were introduced in order to respond to: DCELLS/QCA requirements; the non-statutory frameworks for Wales and England; the community cohesion focus in England; the end of coursework; and teacher feedback. The content of the specifications and combinations permitted were outlined, and the format of the examination papers described. WJEC support for the new specifications included regional support advisors, the WJEC website, training, and schemes of work. Figures show that religious studies is one of the fastest growing subjects at KS4 and A-level in terms of take-up. |
| Yr oedd y cwestiynau gan aelodau'n cynnwys paham yr oedd Bwdhaeth wedi ei gadael allan, gan fod hon yn grefydd boblogaidd i'w hastudio ar y Safon Uwch, a phaham yr oedd unedau 'Astudiaethau Beiblaidd' wedi eu hepgor. Yn y ddau achos, yr oedd y niferoedd bychain a oedd yn ymgymryd â'r pynciau ar lefel TGAU yn cael eu dyfynnu fel ffactor achosol sylweddol. Derbyniodd yr aelodau daflen a oedd yn cynnwys y cyflwyniad PowerPoint. | Questions from members included the reason for the omission of Buddhism which is a popular religion to study at A-level, and the omission of 'biblical studies' units. In both cases, poor uptake at GCSE level was cited as a significant determining factor. Members received a handout of the PowerPoint presentation. |

| | |
|---|---|
| **9. Cyflwyniad gan Peter Privett: *Godly Play*** Eglurodd Peter Privett beth oedd tarddiad *Godly Play*, esboniodd beth ydoedd, ac estynnodd wahoddiad i'r aelodau i gymryd rhan mewn stori *Godly Play* fer. Yr oedd *Godly Play* wedi ymgodi o fyd Eglwysi ac nid o fyd ysgolion. Fodd bynnag, yr oedd cryn ddiddordeb mewn *Godly Play* wedi ei fynegi'n ddiweddar gan ysgolion cynradd a oedd yn dymuno'i ddefnyddio. Yr oedd *Godly Play* yn helpu athrawon i wireddu'r agwedd 'dysgu oddi wrth grefydd' ar AG. Mewn cyd-destun AG, ugain mlynedd ynghynt, yr oedd deunydd 'Gift to the Child' John Hull wedi ei seilio ar *Godly Play,* ond wedi canolbwyntio ar grefyddau gwahanol. | **9. Presentation by Peter Privett: Godly Play** Peter Privett introduced the origins of Godly play, explained what Godly play was, and invited members to participate in a short Godly Play story. Godly play has emerged from a Church base and not a school base. However, considerable interest in Godly Play has been expressed by primary schools recently who have wanted to use it. Godly Play helps teachers to realise the 'learning from religion' aspect of RE. In an RE context, twenty years ago, John Hull's 'Gift to the Child' material was based on Godly Play, but focused on different religions. |
| Y Cefndir: Mae *Godly Play* yn seiliedig ar athroniaeth Maria Montessori ynglŷn ag addysgu, ac mae wedi ei ffurfio a'i dylanwadu gan Sofia Cavalletti, Jerome Berryman a Rebecca Nye. Buan y bydd plant yn dysgu i gau allan yr holl syniad o ysbrydolrwydd, o ganlyniad i'r ymatebion negyddol gan eraill y maent yn eu profi yn gynnar yn eu hoes. Nod *Godly Play* yw ailagor y maes hwn gyda phobl ifanc. Mae *Godly Play* yn gosod y plentyn yng nghanol y dysgu, ac mae'n ymdrin â chwestiynau dirfodol mawrion, sy'n cael eu harchwilio drwy gyfrwng chwarae a stori. Mae hyn yn cael ei wneud drwy: greu man diogel (o ran amgylchedd ffisegol a'r gydberthynas rhwng oedolion a phlant); saernïo cymuned (cyn addysgu'r plant); cynnig iaith grefyddol (e.e. arteffactau); ac yna creu ystyr (sy'n cael ei wneud gennych chi eich hun fel cymuned). | Background: Godly Play is based on Maria Montessori's philosophy of teaching, and has been shaped and influenced by Sofia Cavalletti, Jerome Berryman, and Rebecca Nye. Children quickly learn to shut out the whole notion of spirituality as a result to the negative responses from others experienced at an early age. Godly play aims to reopen this area with young people. Godly Play places the child at the centre of learning and deals with big existential questions which are explored through play and story. This is done through: creating a safe place (in terms of physical environment and relationships between adults and children); building community (prior to teaching the children); offering religious language (e.g. artefacts); and then making meaning (which is done yourself as a community). |
| Darparwyd amlinelliad nodweddiadol ar gyfer sesiwn *Godly Play*; yr oedd yn cynnwys sut i greu man cysegredig a saernïo cymuned cyn y sesiwn, yn ogystal â phrif elfennau'r sesiwn ei hun. Yr oedd y prif elfennau hyn yn cynnwys: croeso; stori; dyfalu ynglŷn â'r stori; amser gweithio; gwledd; a bendith. Yr oedd llonyddwch yn cael ei annog drwy gydol y gweithgarwch, ac ni ddylai ymatebion plant fyth gael eu rheoli na'u cyfarwyddo gan oedolion a oedd yn bresennol. Cymerodd yr aelodau ran mewn enghraifft fer o stori am y Geni. | A typical outline for a Godly Play session was provided, and included how to create a sacred space and build community before the session as well as the main components of the session itself. These main components included: welcome; story; wondering about the story; work time; feast; and blessing. Stillness throughout was encouraged and children's responses should never be controlled or directed by adults present. Members participated in a short example of a story about the Nativity. |
| Yr oedd llawer o ysgolion wedi gofyn am gyfleoedd i ymchwilio i sut y gellid defnyddio *Godly Play* yn yr ystafell ddosbarth, a gellid paratoi diwrnod cyflwyno *Godly Play* ar gyfer athrawon pe bai gan GYSAG'au | Many schools have requested opportunities to explore how Godly Play could be used in the classroom, and if SACREs were interested, a Godly Play introduction day could be prepared for |

| | |
|---|---|
| ddiddordeb yn hynny. | teachers. |
| **10. Cyflwyniad gan Mike Strange: Dadbacio Cristnogaeth**<br>Mae *Dadbacio Cristnogaeth* yn adnodd mawr iawn sy'n cynnwys tri chrynoddisg, wedi eu hanelu at ddisgyblion cyfnod allweddol 2 a disgyblion iau yng nghyfnod allweddol 3. Mae ar gael drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg. Dangoswyd enghreifftiau o'r cynnwys i'r aelodau, er enghraifft 'Athrawiaethau Allweddol yr Iesu: maddeuant', a oedd yn arddangos y cyflwyno amlgyfrwng ac amryfal ddulliau o archwilio'r pynciau.<br><br>Yr oedd copïau rhad ac am ddim o'r adnoddau'n cael eu dosbarthu i ysgolion drwy eu CYSAG'au lleol. Diolchodd Mike Strange i'r aelodau am eu cymorth wrth wneud y dosbarthiad hwn yn bosibl. Yn ogystal, cynigiodd ddod i annerch digwyddiadau hyfforddi AALl'au, pe gofynnid iddo wneud hynny.<br>Wedi hyn, byddai'r adnodd nesaf i ymddangos yn cael ei anelu at ysgolion uwchradd. Tynnodd Mike Strange sylw hefyd at wefan 'RE: Quest', a oedd yn cynnwys llawer iawn o ddeunydd newydd (er enghraifft, taith rithwir o gwmpas Eglwys Gadeiriol Tyddewi, a gwybodaeth ynglŷn â'r twf mewn adnoddau ar gyfer cyfnod allweddol 3). Yn ychwanegol at hynny, yr oedd y wefan bob amser yn cynnwys agwedd dymhorol a oedd yn adfyfyrio ar flwyddyn yr Eglwys.<br><br>Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad o fersiwn Cymraeg yr adnodd, ac o gyfraniad yr adnodd i Sgiliau Meddwl. | **10. Presentation by Mike Strange: Christianity Unpacked**<br>*Christianity Unpacked* is a very large resource of three CDs, where are aimed at key stage 2 pupils and lower key stage 3 pupils. It is available through the medium of English and Welsh. Members were shown examples of the content, for example, 'Key Teachings of Jesus: forgiveness', which illustrated the multi-media presentation and various approaches taken to exploring the topics.<br><br>Free copies of the resources were being distributed to schools through their local SACREs. Mike Strange thanked members for their help in making this distribution possible. He also offered to come and speak at LEA training events, if requested. After this, the next resource to appear would be aimed at secondary schools. Mike Strange also drew attention to the RE: Quest website which had a great deal of new material (for example, the virtual tour of St David's Cathedral and the growth of the key stage 3 resources). In addition, the website always included a seasonal aspect reflecting the Church year.<br><br>Members expressed their appreciation of the Welsh version of the resource and the resource's contribution to Thinking Skills. |
| **11. Arddangos adnoddau AG**<br>(a) Dangosodd Gill Vaisey gatalog newydd books@press i'r aelodau, a thynnodd sylw at yr adnoddau newydd (yr oedd y rhain wedi eu cyflwyno'n fanylach yng nghyfarfod blaenorol CCYSAGauC). Yr oedd yn bosibl i books@press gyflenwi mewn crynswth, mewn pecynnau mawr, a gofynnwyd i'r ymgynghorwyr gymryd y rhain i'w gwerthu i ysgolion.<br><br>(b) Tynnodd Rheinallt Thomas sylw at adnoddau MAGC a oedd wedi eu cynnwys ar daflen a | **11. Showcase of RE resources**<br>(a) Gill Vaisy made available the new books@press catalogue to members and drew attention to the new resources (these were presented in greater depth at the previous WASACRE meeting). It was possible for books@press to supply in bulk in large packs and advisers were asked to take these to sell to schools.<br><br>(b) Rheinallt Thomas drew attention to the resources of REMW included on a leaflet received |

| | |
|---|---|
| dderbyniwyd gan aelodau (yr oedd y rhain wedi eu cyflwyno'n fanylach yng nghyfarfod blaenorol CCYSAGauC). Yn ogystal, cynigiodd ddewis 'gwerthu neu ddychwelyd' i ymgynghorwyr, os oedd ymgynghorwyr yn dymuno cael setiau o adnoddau i'w gwerthu i ysgolion. Tynnwyd sylw arbennig unwaith eto at yr adnodd *RE Ideas*, yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â manteision tanysgrifiad gan AALl i MAGC. | by members (these were presented in greater depth in the previous WASACRE meeting). He also offered advisors a 'sale or return' option, if advisors wanted sets of resources to sell to schools. The resource, *RE ideas* was again highlighted as well as information relating to the benefits of LEA subscription to REMW. |
| (c) Rhoddodd Tania ap Siôn wybod i'r aelodau fod y fersiwn Saesneg o *Crefyddau'r Byd Heddiw: Llawlyfr Athrawon* bellach wedi ei gyhoeddi. Atgoffodd yr aelodau fod y gyfres llyfrau straeon hon ar gyfer cyfnod allweddol 2 wedi ei chynnwys yng nghyflwyniad Denize Morris (Swyddog Pwnc APADGOS ar gyfer Addysg Grefyddol) yng nghyfarfod diwethaf CCYSAGauC, a oedd wedi canolbwyntio ar ddeunyddiau ategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg grefyddol yn y cwricwlwm newydd. | (c) Tania ap Siôn informed members that the English version of the *World Faiths Today: Teachers' Handbook* was now published. She reminded members that this key stage 2 storybook series was included in Denize Morris' (Subject Officer for RE, DCELLS) presentation in the last WASACRE meeting which focused on Welsh Assembly Government support materials for religious education in the new curriculum. |
| Tynnodd sylw hefyd at y CD-ROM ryngweithiol, *Jewish Way of Life*, a oedd wedi ei chynhyrchu gan Fwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain a Sefydliad Pears. Derbyniodd yr aelodau gopi o'r CD-ROM i'w gymryd yn ôl i'w CYSAG'au. Yr oedd unigolion yn gallu archebu copïau o'r CD-ROM oddi ar wefan ategol 'Jewish Way of Life', a byddai Tania ap Siôn yn e-bostio manylion i glercod yr holl GYSAG'au ynglŷn â sut y gallai AALl'au/CYSAG'au archebu copïau lluosog am ddim i'w dosbarthu i'w hysgolion. Yr oedd *Jewish Way of Life* yn addas ar gyfer disgyblion CA2 a CA3. | She also drew attention to the interactive CD ROM, *Jewish Way of Life* produced by The Board of Deputies of British Jews and the Pears Foundation. Members received a copy of the CD ROM to take back to their SACREs. Individuals were able to order copies of the CD ROM from the supporting Jewish Way of Life website, while Tania ap Siôn would e-mail all clerks to SACRE details about how LEAs/SACREs could order free multiple copies to distribute to their schools. *Jewish Way of Life* is appropriate for KS2 and KS3 pupils. |
| **12. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2009**<br>Derbyniodd yr aelodau daflen a oedd yn crynhoi cyfarfod y Pwyllgor Gwaith. Tynnodd y Cadeirydd sylw at:<br>(a) bwynt 5 ynglŷn â'r cyfarfod rhwng cynrychiolwyr CCYSAGauC a'r Gweinidog Addysg ar 25 Tachwedd 2009; derbyniodd yr aelodau daflen a oedd yn manylu ar ddeilliannau'r cyfarfod hwnnw;<br>(b) canllawiau CCYSAGauC i ysgolion ar y ddeddfwriaeth ynglŷn ag addoli ar y cyd Ôl-16, a gynhwyswyd yn y papurau ar gyfer y cyfarfod. | **12. Report from the Executive Committee meeting held on 2 March, 2009**<br>Members received a handout summarising the Executive meeting. The Chair drew attention to:<br>(a) point 5 concerning the meeting between WASACRE representatives and the Minister of Education on 25 November 2009, and members received a handout detailing the outcomes of that meeting;<br>(b) the WASACRE guidance to schools on collective worship legislation Post-16 included in the papers for the meeting. |

| | |
|---|---|
| **13. Cyfarfod gyda Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.**<br>Cyflwynodd Leslie Francis adroddiad ar y cyfarfod rhwng cynrychiolwyr CCYSAGauC a Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gydraddoldeb Cymdeithasol, ar 10 Mawrth 2009. Yr oedd y cyfarfod gyda Brian Gibbons yn un o ddeilliannau cyfarfod blynyddol CCYSAGauC gyda'r Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mis Tachwedd 2008, ac yr oedd wedi ei hyrwyddo gan APADGOS. Drwyddo draw, bu'r cyfarfod yn ddefnyddiol o ran datblygu gwell dealltwriaeth o natur a rôl addysg grefyddol ac o ran arwain at dri deilliant ymarferol:<br>(a) Gyda chytundeb y Gweinidog Addysg, byddai cynrychiolydd o'r Adran Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn gwneud cyflwyniad i CCYSAGauC. Byddai CCYSAGauC yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg yn gofyn am gefnogaeth i'r fenter hon.<br>(b) Gwahoddwyd CCYSAGauC i ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar Gydlyniad Cymunedol o safbwynt addysg grefyddol.<br>(c) Mewn egwyddor, yr oedd Brian Gibbons yn cefnogi'r syniad o archwilio ffyrdd y gallai ei adran ef, APADGOS a CCYSAGauC gydweithio yn y dyfodol, ac yr oedd yn gefnogol i gynhwysiad y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf rhwng cynrychiolwyr CCYSAGauC a'r Gweinidog Addysg.<br><br>Derbyniodd yr aelodau daflen a oedd yn crynhoi'r deilliannau hyn.<br><br>Diolchodd Mairwenna Lloyd i gynrychiolwyr CCYSAGauC am alluogi mentrau o'r fath, a oedd yn codi proffil CCYSAGauC ymhellach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. | **13. Meeting with Brian Gibbons, Minister for Equality and Social Justice.**<br>Leslie Francis reported on the meeting between WASACRE representatives and Brian Gibbons, Minister for Equality and Social Justice, 10 March 2009. The meeting with Brian Gibbons arose as one of the outcomes of WASACRE's annual meeting with the Minister of Children, Education, Lifelong Learning and Skills in November 2008, and was facilitated by DCELLS. Overall, the meeting was useful for developing greater understanding of the nature and role of religious education and for generating three practical outcomes:<br><br>(a) With the agreement of the Minister of Education, a representative from the Department of Equality and Social Justice would make a presentation to WASACRE. WASACRE would write to the Minister of Education requesting support for this initiative.<br>(b) WASACRE was invited to respond to the Community Cohesion consultation document from an RE perspective<br>(c) In principle, Brian Gibbons supported the notion of exploring ways in which his department, DCELLS, and WASACRE could work together in the future and supported its inclusion on the agenda of the next meeting between WASACRE representatives and the Minister of Education.<br><br>Members received a handout summarising these outcomes.<br><br>Mairwenna Lloyd thanked WASACRE representatives for enabling such initiatives which raised further the profile of WASACRE with the Welsh Assembly Government. |
| **14. U.F.A.**<br>(a) Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newidiadau o bwys a oedd yn digwydd yn y ddarpariaeth HAGA yng Nghymru, a thynnodd sylw arbennig at yr angen i fonitro'r maes hwn y flwyddyn nesaf.<br><br>(b) Diolchodd Rheinallt Thomas i awduron dogfen canllawiau CCYSAGauC ar addoli ar y cyd Ôl-16, ac anogodd GYSAG'au unigol i ganolbwyntio ar y mater hwn yn eu hysgolion. | **14. A.O.B.**<br>(a) The Chair referred to the major changes taking place in ITET provision in Wales, and highlighted the need to monitor this area next year.<br><br>(b) Rheinallt Thomas thanked the authors of the WASACRE guidance on collective worship at Post-16 document, and urged individual SACREs to focus on this matter with their schools. |

| | |
|---|---|
| (c) Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i: Michael Gray, a oedd wedi sefyll yn y bwlch fel Cadeirydd yn rhan gyntaf y cyfarfod; Richard Landy, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Pen-y-bont ar Ogwr; y Maer; Jane Thatcher, y Clerc i GYSAG Pen-y-bont ar Ogwr; Carys Thomas, Ymgynghorydd AG; a Garmon Davies, cyfieithydd. | (c) The Chair extended his thanks to: Michael Gray who stood in as Chair for the first part of the meeting; Richard Landy, Deputy Director of Education for Bridgend; the Mayor; Jane Thatcher, Clerk to Bridgend SACRE; Carys Thomas, RE Advisor; and Garmon Davies, translator. |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 24 Mehefin 2009, yng Ngwesty'r Ffesant Gwyllt, Llangollen** | **Date of next meeting: 24 June 2009, Wild Pheasant Hotel, Llangollen** |